Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 1 Trefniadau Cynllunio Gweithredol – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2349A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae’r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw’r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae’r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Adroddiad manwl

Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 6

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 6

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 9

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam cyntaf Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2023, i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fe ataliodd Llywodraeth Cymru'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Fe nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd baratoi cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio o'r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21.

## Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom **fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol a monitro'r modd y cânt eu cyflawni'n effeithiol ac yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau newidiol**.

7 Cyflwynwyd Cynllun Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Chwarteri 3 - 4 (Cynllun Chwarteri 3-4) i Lywodraeth Cymru o fewn y ffrâm amser ofynnol, mae'n cwmpasu'r holl feysydd angenrheidiol o fewn y canllawiau fframwaith cynllunio ac fe graffodd y Bwrdd arno fel a oedd yn ofynnol.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ei dull cryf o ran datblygu ei chynlluniau chwarterol fel a wnaeth wrth ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig mewn

blynyddoedd blaenorol. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn dilyn ymlaen o'r ddau gynllun chwarterol blaenorol ac fe'i tanategir gan yr wybodaeth orau bosibl a oedd ar gael o ystyried yr ansicrwydd a achosir gan y pandemig. Mae trefniadau i gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddeinamig ac maent wedi ymateb i'r amgylchiadau newidiol ac wedi cefnogi'r GIG ehangach.

9 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gweithredol a strategol effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredol. Mae'r Bwrdd yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau a nodir mewn cynlluniau gweithredol.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un).

# Adroddiad manwl

## Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21

11 Fe roddodd ein gwaith ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri 3-4 yr Ymddiriedolaeth yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

12 Canfuom **fod Cynllun Chwarteri 3-4 yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn y ffrâm amser ofynnol, ei fod yn cwmpasu'r holl feysydd angenrheidiol o fewn y canllawiau fframwaith cynllunio a bod y Bwrdd wedi craffu arno fel a oedd yn ofynnol**.

13 Tra'r oedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu Cynllun Chwarteri 3-4, rhoddodd wybodaeth yn rheolaidd i'r Bwrdd am yr egwyddorion clinigol a'r tybiaethau cynllunio tanategol trwy sesiynau briffio'r Bwrdd a chyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd a phwyllgorau. Ni chafodd Cynllun Chwarteri 3-4 ei drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfod cyhoeddus gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno, gan nad oedd cyfarfod wedi'i amserlennu ar gyfer mis Hydref. Fodd bynnag, fe wnaeth y Bwrdd drafod ac ystyried Cynllun Chwarteri 3-4 mewn sesiwn breifat ar 22 Hydref 2020, ac fe gymeradwywyd yr adroddiad trwy Weithredu Brys gan y Cadeirydd ar 23 Hydref 2020. Cyflwynwyd y Cynllun yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 26 Tachwedd 2020 i gael ei nodi, a chafodd y cam Gweithredu Brys gan y Cadeirydd ei gadarnhau.

14 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn gynhwysfawr ac yn ateb y gofynion a nodir yn fframwaith cynllunio Llywodraeth Cymru. O ran gwasanaethau gwaed a chanser, caiff maint ac effaith yr aflonyddwch a ddeilliodd o COVID-19 eu hegluro. Darperir sicrwydd ynghylch parhad gwasanaethau hanfodol. Caiff yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 eu nodi'n glir hefyd. Fe gwblhaodd yr Ymddiriedolaeth yr holl fetrigau perthnasol yn y Set Ddata Sylfaenol ategol.

15 Mae cenhadaeth ac amcanion yr Ymddiriedolaeth yn tanategu Cynllun Chwarteri 3-4, gyda ffocws ar roi cymorth i ddarparu gwasanaethau clinigol diogel a thosturiol a darparu amgylchedd diogel ar gyfer staff. Mae gan yr holl gamau gweithredu a nodir yng Nghynllun Chwarteri 3-4 gerrig milltir cyflawni diffiniedig gyda chrynodeb o'r statws/cynnydd ar yr adeg y cyflwynwyd y cynllun. Mae'r risgiau i gyflawni camau gweithredu'n dryloyw a darperir camau lliniarol.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

16 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i ategu ei hymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol, ac adfer gwasanaethau mwy rheolaidd.

17 Canfuom **fod dull cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ac yn ddigon hyblyg i addasu blaenoriaethau i ymateb i amgylchiadau newidiol**.

18 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddatblygiad amlwg ar y cynlluniau gweithredol ar gyfer chwarteri un a dau ac yn darparu crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a nodwyd yn y ddau gynllun. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth fyfyrio ar yr adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a chymhwyso gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4, megis sicrhau ymgysylltu cynharach â'r Cyngor Iechyd Cymuned.

19 Mae dull yr Ymddiriedolaeth o ddatblygu ei chynlluniau chwarterol yn ddigyfnewid. Datblygwyd Cynllun Chwarteri 3-4 gan dimau gweithredol gyda mewnbwn gan glinigwyr ac roedd gwasanaethau galluogi, gan gynnwys y gweithlu, cyllid a thechnoleg gwybodaeth, yn rhan annatod o'r broses. Mae penderfyniadau cynllunio a wnaed o fewn y strwythur celloedd rheoli a thactegol a sefydlwyd i ymateb i COVID-19 yn chwarteri un a dau wedi goleuo Cynllun Chwarteri 3-4.

20 Fe newidiodd prosesau penderfynu gweithredol o ddydd i ddydd yn yr Ymddiriedolaeth yn sylweddol mewn ymateb i COVID-19 yn 2020. Fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth grŵp Rheoli Aur (strategol) a dau grŵp Rheoli Arian (gweithredol) a strwythur celloedd i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau cyflym. Mae celloedd wedi'u strwythuro i gynnwys personél perthnasol gan gynnwys cynrychiolwyr o blith clinigwyr, swyddogion cyllid, swyddogion y gweithlu, a swyddogion cynllunio, i fwrw golwg ar faterion Ymddiriedolaeth-gyfan, megis cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol. Mae'r strwythurau rheoli a chelloedd wedi galluogi cysylltedd rhwng y dyheadau gweithredol a nodir yn y cynlluniau chwarterol a phrosesau penderfynu a darparu o ddydd i ddydd.

21 Tanategir Cynllun Chwarteri 3-4 gan weithgarwch parhaus i ragweld y galw posibl am wasanaethau gwaed a chanser. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar lefelau'r galw cyn y pandemig i ragfynegi'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol, gan ystyried galw ataliedig a newidiadau i lwybrau triniaeth cleifion o ganlyniad i'r pandemig.

22 Bydd y galw am waed yn cynyddu yn unol â gallu byrddau iechyd i ailddechrau llawdriniaeth ddewisol, a bydd y galw am wasanaethau canser yn cynyddu yn unol â lefelau sgrinio diagnostig. Wrth i gyfradd heintio COVID-19 ac, o ganlyniad, y derbyniadau i ysbytai, gynyddu yn ystod cyfnod y gaeaf, roedd y galw gwirioneddol am wasanaethau gwaed a chanser yn is na'r disgwyl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n rheolaidd â byrddau iechyd i ddeall eu gallu i ailddechrau gweithgarwch rheolaidd, er mwyn canfod sut y gallai hyn effeithio ar yr Ymddiriedolaeth.

23 Mae cynllunio capasiti'n ystyried ffactorau dylanwadu, megis canllawiau COVID-19, cadw pellter cymdeithasol, ac argaeledd y gweithlu. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch lefel ac amseriad y galw, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r capasiti swyddogaethol uchaf posibl y gall ei ddarparu, a pha gapasiti ychwanegol ellid trefnu ei fod ar gael. Mae Canolfan Ganser Felindre wedi datblygu cynlluniau i ddarparu capasiti ychwanegol trwy gynyddu'r defnydd o Tenovus i ddarparu gwasanaethau allgymorth, a'r sector annibynnol i ddarparu agweddau ar ofal canser.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â staff trwy gydol y pandemig ac fe wnaeth gwybodaeth o arolygon staff a chleifion/rhoddwyr yn 2020 oleuo'i Chynllun Chwarteri 3-4. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi sicrhau ymgysylltu ystyrlon, parhaus â chleifion a rhoddwyr mewn perthynas â deall eu barn am ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig. Wrth ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4, fe ymgysylltodd yr Ymddiriedolaeth yn gynharach â'r Cyngor Iechyd Cymuned nag a wnaeth ar gyfer y ddau gynllun chwarterol cyntaf. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi ei bwriad i ymgorffori prosesau mwy integredig ar gyfer cynnwys partneriaid allanol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredol yn y dyfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio mewn modd cyson.

25 Mae trefniadau'n bodoli i flaenoriaethu cleifion yn seiliedig ar angen clinigol. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Gweithredu a Llywodraethu Clinigol i gefnogi prosesau blaenoriaethu clinigol a phenderfynu ynghylch triniaeth ar gyfer canser yn ystod COVID-19. Mae'r fframwaith wedi cael ei ddiweddaru ddwywaith ac mae'n ategu cydbwysedd rhwng y risg y mae COVID-19 yn ei hachosi i gleifion ar y naill law ac opsiynau o ran triniaeth ar y llaw arall wrth wneud penderfyniadau.

26 Fe wnaeth isadran Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynlluniau parhad busnes a'u rhoi ar waith i sicrhau bod cleifion canser yn gallu parhau'n ddiogel ag astudiaethau ymchwil gritigol neu gael mynediad at rai newydd trwy gydol cyfnodau'r pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil COVID-19.

27 Yn ei chynlluniau chwarterol, fe nododd yr Ymddiriedolaeth sut y bydd mynd yn ôl i 'normal' yn edrych. Roedd Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi cynllun yr Ymddiriedolaeth i adfer clinigau allgymorth ar safleoedd ysbytai ledled De Ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, fe wnaeth y cynnydd o ran trosglwyddo'r haint yn y gymuned a'r cynnydd wedi hynny yn nifer y derbyniadau o ganlyniad i COVID-19 tuag at ddiwedd 2020 gyfyngu ar gyfradd y cynnydd y gallai'r Ymddiriedolaeth ei wneud.

28 Mae trefniadau i gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddeinamig ac yn gallu addasu i amgylchiadau newidiol. Er enghraifft, roedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnal Ysbyty Felindre fel safle heb COVID-19 ond fe achosodd cynnydd mewn derbyniadau oherwydd COVID-19 ar draws byrddau iechyd i'r Ymddiriedolaeth benderfynu derbyn cleifion COVID-19 positif lle barnwyd mai dyma oedd yr opsiwn gorau o ran triniaeth ar gyfer cleifion.

29 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ei threfnu ei hun i gydweithio gyda a chefnogi ymateb y GIG ehangach yng Nghymru i'r pandemig. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- datblygu cynllun i frechu ei staff, staff cyrff eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol a chleifion Canolfan Ganser Felindre (yn ôl blaenoriaethau brechu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol) er nad oedd gan yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldeb statudol i wneud hynny;
- defnyddio adnoddau ac arbenigedd Canolfan Waed Cymru i helpu i roi'r rhaglen frechu ar waith yn llwyddiannus;

- bod â rôl arweiniol yn y rhaglen plasma ymadfer COVID-19, trwy gasglu'r plasma sy'n cynnwys gwrthgyrff COVID-19 i gefnogi treialon clinigol ar gyfer triniaeth bosibl i gleifion â chlefyd COVID-19 difrifol; a
- chydweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ganiatáu'r defnydd o gerbydau casglu symudol Gwasanaeth Gwaed Cymru i gefnogi gwasanaethau sgrinio.

30 Yn ystod 2020, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu ffyrdd newydd o weithio a roddwyd ar waith mewn ymateb i COVID-19, megis gweithio'n ddigidol a chasglu gwaed yn ganolog, i ymgorffori gwersi o fewn y cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ystyried pa mor gyfredol yw'r blaenoriaethau a bennwyd ganddi yn y CTCI 2020-23 (cyn y pandemig) i asesu pa rai ellir canlyn arni â hwy yn ystod 2021-22. Cyn y pandemig, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu cynllun strategol 10 mlynedd ac amcanion strategol newydd gyda chynlluniau clinigol 5 mlynedd tanategol ar wahân ar gyfer gwasanaethau canser a gwaed a chynlluniau galluogi ategol. Er bod gwaith ar y cynlluniau hyn wedi cael ei atal dros dro, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ailddechrau'r gwaith yn 2021.

# Trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

31 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Chwarteri 3-4 ac yr adroddir ar hynny.

32 Canfuom **fod gan yr ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredol**.

33 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Offeryn Tracio Camau Gweithredu Cyfunol, sy'n cynnwys pob un o'r camau gweithredu o'r tri chynllun chwarterol gyda graddfa amser cyflawni ac arweinydd cyfrifol. Caiff yr offeryn tracio'i ddiweddaru'n rheolaidd â chrynodeb byr o'r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu ac mae system goleuadau traffig yn dangos statws y cam gweithredu. Caiff yr offeryn tracio'i adolygu bob mis gan y Grwpiau Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol.

34 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu crynodeb o'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau chwarterol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

35 Mae'r Bwrdd hefyd yn cael gwybodaeth am ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19 a phrosesau penderfynu cysylltiedig, trwy sesiynau briffio'r Bwrdd, a chyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cynnwys meysydd ffocws allweddol mewn perthynas â chyflawni gweithredol, gan amlygu unrhyw heriau/risgiau, unrhyw newidiadau y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau a metrigau'r gweithlu.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.